SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

www.northwales-pcc.gov.uk

Glan y Don,
Bae Colwyn / Colwyn Bay
LL29 8AW

Rt Hon Yvette Cooper,
Home Secretary
Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ein Cyf / Our Ref: AD/HW/2423

11 Tachwedd/ November 2024

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

Fel sy'n ofynnol drwy statud, 'rwyf yn ysgrifennu atoch yn ymateb i adroddiad Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) ynglŷn ag arolygiad ar y cyd i drefniadau diogelu plant yng Nghymru 2019-2024.

Mae'r adroddiad wedi amlygu bod prosesau diogelu ar eu mwyaf effeithiol pan mae gwaith partneriaeth yn cael ei gyflawni'n gywir. Mae rhannu gwybodaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau bod plant wedi'u gwarchod, a bod risg yn cael ei ystyried yn briodol. 'Roedd wedi ei nodi bod ystod eang o wasanaethau ar gael ledled Cymru ar gyfer cynorthwyo plant mewn angen.

'Roedd yn gadarnhaol gweld bod awdurdod lleol Sir Ddinbych wedi ei amlygu am eu gwaith ym maes iechyd meddwl o fewn ysgolion, cynadleddau gwarchod plant yn cysylltu risg a diogelwch, a phresenoldeb partneriaid yn y Cynadleddau Asesu Risg Aml Asiantaeth (MARAC). Mae'n siomedig mai ond un awdurdod lleol o'r chwech yng Ngogledd Cymru gafodd ei ystyried fel rhan o'r adolygiad hwn.

'Roeddwn yn falch gweld bod buddion cyfweliadau dychwelyd adref wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Yn anffodus, mae cyflawniad cyfweliadau dychwelyd adref yn afreolaidd yng Ngogledd Cymru. Mae anghysondeb mawr ymhlith y chwech awdurdod lleol, efo rhai ddim yn cyflawni'r cyfweliadau pan mae plentyn yn dychwelyd. Mae hyn yn achosi

Dear Home Secretary,

As required by statute, I am writing to you in response to His Majesty's Inspectorate of Constabulary, Fire and Resue Service's (HMICFRS) joint inspection of child protection arrangements in Wales 2019-2024.

The report has highlighted that safeguarding processes are most effective when partnership working is implemented correctly. The sharing of information is vital in ensuring that children are protected, and risk is measured appropriately. It was identified that across Wales there are a wide range of services available to assist and support children in need.

It was positive to see Denbighshire local authority being highlighted for their work with mental health within schools, child protection conferences linking both risk and safety and the attendance of partners at the Multi-Agency Risk Assessment Conferences. It is disappointing that only one local authority out of six in North Wales were considered as part of this review.

I was pleased to see that the benefits of return home interviews were mentioned within the report. Unfortunately, return home interviews in North Wales are sporadic. There are huge inconsistencies among the six local authorities with some not completing interviews on a child's return. This causes great frustration for partner agencies, especially the

01492 805486
OPCC@northwales.police.uk
www.northwales-pcc.gov.uk

O 25 Mai 2018 ymlaen mae'r rheoliadau sy'n berthnasol i brosesu gwybodaeth bersonol wedi newid. Gelwir y rhain yn Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC). Darllenwch ein Polisi Preifatrwydd sy'n cynnwys gwybodaeth ar sut ydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol ac "Eich Hawliau" o dan RhDDC.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg pe dymunir. Ni fydd gohebu yn Gymraeg gyda'r swyddfa yma yn arwain at oedi.

As from 25 May 2018 the regulations relating to processing personal information has changed. These are called General Data Protection Regulations (GDPR). Please read our Privacy Policy which contains information on how we process your personal information and "Your Rights" under GDPR.

We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to correspondence in Welsh if desired. Corresponding in Welsh with this office will not lead to delay.

siomedigaeth i asiantaethau partner, yn enwedig yr heddlu. Mae hwn yn fater parhaus sydd wedi ei amlygu i awdurdodau lleol nifer o weithiau. Er mwyn sicrhau bod plant ar draws Cymru yn derbyn gwasanaeth cyson, fe fuaswn yn cymell bod cyfweliadau dychwelyd adref yn orfodol yng Nghymru fel y maent yn Lloger.

police. This is an ongoing issue and has been highlighted to local authorities on several occasions. To ensure that children across Wales are receiving a consistent service I would urge for return home interviews to become mandatory in Wales as they are in England.

Mae'r adroddiad wedi amlygu cryfderau o fewn plismona, drwy weithio mewn partneriaeth er mwyn cyfrannu'n weithredol i gynlluniau diogelu. Mae'r defnydd o systemau'r heddlu er mwyn darparu gwybodaeth gwerthfawr i ymatebwyr ar y rheng flaen wedi ei gymeradwyo yn yr adroddiad. Yn anffodus, nid oedd cyfeiriad uniongyrchol ynglŷn â phrosesau diogelu Heddlu Gogledd Cymru yn yr adroddiad.

The report has highlighted strengths within policing in working in partnership to actively contribute to safeguarding plans. The use of police systems to provide valuable information to frontline responders was commended within the report. Unfortunately, North Wales Police's safeguarding processes weren't directly mentioned within the report.

'Rwyf yn croesawu'r adroddiad am amlygu buddion gwaith aml asiantaeth ar gyfer diogelu plant, ac fe wnaf barhau cefnogi a hyrwyddo gwaith partneriaeth.

I welcome the report in highlighting the benefits of multi-agency working in safeguarding children and I will continue to support and promote partnership working.

Yn gywir

Yours sincerely



Andy Dunbobbin
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru /North Wales Police and Crime Commissioner

01492 805486

OPCC@northwales.police.uk

www.northwales-pcc.gov.uk

O 25 Mai 2018 ymlaen mae'r rheoliadau sy'n berthnasol i brosesu gwybodaeth bersonol wedi newid. Gelwir y rhain yn Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC). Darllenwch ein Polisi Preifatrwydd sy'n cynnwys gwybodaeth ar sut ydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol ac "Eich Hawliau" o dan RhDDC.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg pe dymunir. Ni fydd gohebu yn Gymraeg gyda'r swyddfa yma yn arwain at oedi.

As from 25 May 2018 the regulations relating to processing personal information has changed. These are called General Data Protection Regulations (GDPR). Please read our Privacy Policy which contains information on how we process your personal information and "Your Rights" under GDPR.

We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to correspondence in Welsh if desired. Corresponding in Welsh with this office will not lead to delay.